# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i bawb a berfformiodd wythnos diwethaf yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o blant Ysgol Treganna yn cael y cyfle i serennu, ac roeddem fel ysgol, yn falch iawn ohonoch chi i gyd.

Da iawn i'r canlynol fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd: Mabli ac Albi - Unawd Blwyddyn 3 a 4, Heti – Llefaru Blwyddyn 3 a 4, Sara a Begw – Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau, Isabella a Lexi – Unawd Blwyddyn 5 a 6, Sara a Nansi, Isabella a Hanna – Deuawd Blwyddyn 6 ac iau, Mari - Unawd Cerdd Dant Bl 2 ac iau, Begw, Heti a Mabli- Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4, Sara - Unawd Cerdd Dant Bl 5 a 6, Sara a Nansi -Deuawd Cerdd Dant, Parti Unsain, Parti Deulais, Parti Cerdd Dant, Parti Llefaru Glas, Parti Llefaru Melyn, yr Ymgom a'r Gân Actol.

Diolch yn fawr iawn hefyd i staff yr ysgol sydd wedi bod yn hyfforddi ac yn paratoi'r plant ar gyfer yr Eisteddfod.

**Y GRhA**

Diolch yn fawr iawn i wirfoddolwyr y GRhA, gan gynnwys rhieni ac athrawon, a fu'n rhedeg y caffi yn ystod Eisteddfod Cylch yr Urdd wythnos diwethaf. Llwyddwyd i wneud £900 o elw, sy'n anhygoel! Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl ymdrech mae'r GRhA yn ei wneud. Mae'r arian a godir yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol yn yr ysgol er mwyn cyfoethogi addysg pob plentyn.

## Calendr

**Eisteddfod Theatr y Sir, Theatr y Memo, y Barri, 19.3.26**

**Eisteddfod Sir yr Urdd, Theatr y Memo Barri, 21.3.26**

## Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dimau pêl-droed merched a bechgyn yr ysgol a gystadlodd yr wythnos hon yn nhwrnamaint Caerdydd a'r Fro.

Roedd safon y chwarae yn arbennig ac roedd pob disgybl yn glod i'r ysgol.

Diolch i'r staff am hyfforddi'r timoedd pêl-droed.

## Llyfrau Coll

Gofynnwn yn garedig i bawb wirio adref am unrhyw lyfrau darllen sydd ar goll. Rydym yn brin o lyfrau yn yr ysgol ac yn ymwybodol nad yw pob llyfr darllen yn cael ei ddychwelyd.

Bydd bocsys ar gyfer llyfrau coll yn cael eu gosod y tu allan i bob dosbarth wythnos nesaf, yn ogystal ag yn ystod nosweithiau rhieni.

Gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd unrhyw lyfrau darllen sydd gennych gartref.

# Diwrnod Trwynau Coch

Byddwn yn dathlu Diwrnod Trwynau Coch yn yr ysgol ddydd Gwener, yr 20fed o Fawrth.

Gofynnwn yn garedig i bawb wisgo rhywbeth coch a rhoi cyfraniad tuag at yr elusen bwysig hon.

Mae modd gwneud cyfraniad drwy ParentPay.



# Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Beth sy'n bod?
Mae…a…gen i
**Her**
Oes (peswch/annwyd ayb) arnat ti?
Oes, mae…arna i
Nac oes, does dim…arna i

**Testun trafod yr wythnos**
Fyddwn i byth bythoedd yn bwyta…

**Cân yr wythnos**
Tara Bandito - Croeso i Gymru

**Idiom yr wythnos**
Codi Calon